HG35 5.56

# MARWNAD

## AR FARWOLAETH

# Y PARCH. THOMAS GREY,

Gweinidog yr Efengyl yn Ffos-y-ffin, Aber-meirig, a Llwyn-y-piod, yn Sir Aberteifi;

YR HWN

A ORPHWYSODD ODDIWRTH EI LAFUR MEHEFIN 2, 1810, YN 77 MLWYDD OED.

Bu yn y Weinidogaeth 59 o Flynyddoedd.

Y TESTUN DIWEDDAF A BREGETHODD MR. GREY ODDI ARNO.

I agoryd eu llygaid, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw; fel y derbyniont faddeuant pechodau, a chyfran yn mysg y rhai a sancteiddiwyd, trwy y ffydd sydd ynof fi.

ACTAU xxvi. 18.

*A'r doethion a ddyscleiriant fel dyscleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder a fyddant fel y sêr byth yn dragywydd.*

DAN. xii. 3.

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD GAN JAMES A WILLIAMS.

1810.

X205309002

LH 2313

# MARWNAD, &c.

1 O NA feddwn i ar eiriau,
Dysg a dawn a chymhwysderau,
Fel y gallwn osod allan,
Ar ryw gyfrif yma gyfran,
Ger eich bronau, mewn prydyddiaeth,
Ddwys alarus Goffadwriaeth?
Dewch ynghyd oll i gyd
Yn astud i wrando,
Clywch fy araeth unwaith etto,
Wael greadur, cyn ymado.

2 Y mae galwad uchel uchel,
Arnat etto, Seion dawel,
Wisgo lliain sach, a lludw,
Ac i wylo'r dagrau'n chwerw:
Deffro'n fuan o'th gysgadrwydd,
Gwisg dy alar wisgoedd beunydd,
Newydd blin i bob un
Sy'n dilyn duwioldeb,
Ac yn caru'r brawdol undeb,
Yma yn y rhyfel caled.

3 Mis MEHEFIN, yn y borau,
Y trydydd dydd, 'rwy'n cofio'r oriau,
Daeth i'm clustiau newydd trwstan,
Treuliodd canwyll oleu allan,
Seren hardd ddyscleirwych gyson,
Hir oleuodd wersyll Seion;
Am THOMAS GREY, wylo mae
Amryw rai gweiniaid,
Y'mhlith y diadelloedd defaid
Pawb sy'n cwyno am eu colled

4 Colled fawr yn gyffredinol,
Pwy all ddwëyd ei maint yn hollol;
Colled trwm, nis gallwn gelu,
Colli tâd o blith y teulu,
Colli blaenor a banerwr,
Bugail doeth ac adeiladwr,
Tywysog hy, cadarn, cry',
A threfnwr llu 'r rhyfel,
Oddi wrthym wedi 'madael,
I'r drag'wyddol drigfan dawel.

5 Isel, hyfryd, serchog, mwynaidd,
Cywir farn, a gwîr nefolaidd,
Pwyllog, medrus, amyneddgar,
Duwiol, doeth, a dyoddefgar,
Parchus oedd gan bawb o'r bobol
O bob enw yn gyffredinol;
Trwy gymhorth grâs cyhoeddai ma's,
Mewn urddas mae noddfa,
Diogelwch a diangfa,
Y'nghlwyfau'r Oen i'r dynion gwaetha'.

6 Weithiau bydda'i eiriau tanllyd,
Fel cleddyfau llym, dychrynllyd,
Llymdra'r ddeddf, a dwyfol burdeb,
Sicrwydd barn a thrag'wyddoldeb,
Natur pechod, a'i effeithiau,
A'i ofnadwy ganlyniadau,
Dwëyd 'roedd e' y'mhob lle,
Y byddai yn llefaru,
Nad oedd wiw i neb hyderu
Am lanhad, heb waed yr Iesu.

7 Pan b'ai arswydiadau'r gyfraith
Ar feddyliau rhai 'n cael effaith

Yn eu gwasgu i wyneb marw,
Yna'r *Grey* a ddywedai 'n groyw,
Bechadur gwan, na ddigalona,
Tro dy wyneb i Golgotha,
Yno bu 'r Iesu cu,
Yn talu dy ddyled;
Mentra arno gorph ac enaid,
Mae, 'fe 'n derbyn pechaduriaid.

8 Yn gyffredin 'roedd ei eiriau
Fel diferiad mêl o'r diliau,
Neu fel dyfroedd oerion hyfryd,
I'r sychedig, llesg ei ysbryd,
Gwell oedd ganddo efengylu,
Helpu 'r gwan, a'i godi fynu,
Chwerw lo's, angeu gro's,
Yr achos a'r effaith,
Oedd ei *study* ef a'i drafferth,
Yno 'r oedd ei holl fywiolaeth.

9 Ond wrth gofio mawredd doniau,
Defnyddgarwch â rhinweddau,
Y mae rhwymau arnaf weithian,
Enwi 'r man y tarddodd allan,
Môr di-drai, heb draeth na gwaelod,
O drag'wyddol drefniad Drindod,
Yno mae yn parhau,
Drysorau diddarfod,
Lle ca'dd *Grey* ei wisgo 'n barod,
Ag arfogaeth oddi uchod.

10 Y mae galar mawr a hiraeth,
Yn gyffredin trwy 'r gym'dogaeth
Trwy holl barthau Cymry 'n gryno,
Am y brawd sydd wedi 'mado,

Ond pe gallem heddyw ganfod,
Fath orfoledd sanctaidd hynod,
Sydd yn bod uwch y rhôd,
Diddarfod gan dyrfa,
Oll â'u tànau am y tỳna,
Yn ei reso i'r orphwysfa.

11 Yma 'ngwlad y galarnadau,
Y mae ambell awel weithiau,
Yn arogli 'n bur gysurus,
Gwleddoedd hyfryd gwlâd Paradwys,
Ac yn llòni rhai eneidiau,
Sydd yn llethu dan eu llwythau;
Mawr yw braint pawb o'r saint,
Er cymmaint f'o 'u gofid,
Mae iddynt etifeddiaeth hyfryd,
'R ochor draw yn nhir y bywyd.

12 Dros brydnawn y mae wylofain,
Fe ddaw etto foreu llawen;
Ni bydd neb yn eisieu yno,
Fe ddaw 'r teulu adre 'n gryno;
Plant y cystudd cwm'rwch galon,
Y mae diwedd i'ch treialon;
Mae boreu 'n d'od yn ddio'd,
Ceir hyfryd gyfarfod,
Pawb a'r ddysclaer wêdd eu prïod,
Gwyn eu byd y bobol barod.

13 *Rowlands* enwog welir yno,
Gyda *William Llwyd* o Gaio:
*Robert Roberts*, ŵrol ysbryd,
Heb un llesgedd nac afiechyd;
*Griffith Jones*, a *Dafydd Morris*,
*Thomas Grey*, a *William Davies*,

Yno maent gyda 'r saint,
Mewn uchel fraint ryfedd;
Pawb yn moli 'r Oen a'i rinwedd,
Mewn trag'wyddol wîr dangnefedd.

14 Weithian Seion na fydd segur,
Mae'n bryd deffro bawb o brysur,
Galw 'n daer o flaen yr orsedd,
Pledia 'r addewidion rhyfedd,
Dywedodd Duw y rho'i fugeiliaid,
Wrth ei fodd i borthi 'r defaid;
Frodyr, dewch, ymgryfhewch,
Na lwfrhewch etto,
Help i wasgu 'n mlaen, a phledio
'R hên addewid yn ddi-ildio.

15 Seion dirion, dwys ystyria,
Er yn wan, na ddigalona,
Nid dy adael mae dy Arglwydd,
Fe gyn etto ganwyll newydd;
Yr oedd goleu *Grey*'n dyscleirio
Yn fwy tanbaid cyn ymado,
Hyny sy 'n argoel cry',
Fod Arglwydd y winllan,
Etto 'n meddwl danfon allan,
Weithwyr da mewn duwiol anian.

16 Pan fu farw Moses fwynedd,
Ar y mynydd anghyfanedd,
Fe wnawd Josua'n offeryn,
Yn llaw Duw, i ledio 'r fyddin;
Eleazar, gwisgwyd hwnw,
A gwisg Aaron, cyn ei farw:
Y mae Duw etto 'n fyw,
Ein cysur yw cofio,

Fel daeth hên Elïas heibio
Eliseus, 'ro 'i fantell drosto.

17 Pobl Llanarth a Llan-ddewy,
Ffos-y-ffin, a'r wlâd oddeutu,
Llwyn-y-piod, Aber-meirig,
Frodyr anwyl a charedig,
Trwm yw 'ch galar chwi a'ch colled,
Pwy na wylai wrth ei weled?
Rhaid cario 'r gro's ddydd a nôs,
Tr'o'r einio's yn para;
Mae pob cystudd a chyfyngdra,
'N pery 'r duwiol ddwëyd, diangfa.

18 Frodyr anwyl a charuaidd,
Byddwch bwyllog ac arafaidd,
Cym'rwch reol y dystiolaeth,
Fe ddaw Duw ag iachawdwriaeth,
Fe wna etto, os bydd achos,
Hollti 'r môr i gadw 'r einio's;
Duw ei hun f'o 'n eich trin,
Yn Frenin a Phrophwyd,
Byddo'r Iesu i'r rhai a brynwyd
Ar Galfaria, ac a alwyd.

19 Gweddi daer danfonwch fynu,
Mae'n llawn bryd dihuno ati,
Am gael *help* a chyfarwyddyd
Duw ei hun, a'i rasol Ysbryd,
Beth i wnëyd er llês y teulu,
Clod a pharch i achos Iesu,
Glynu ynghyd oll i gyd,
Yn un-fryd â'u gilydd,
Mewn cysondeb ac onestrwydd,
Duwiol, doeth, y'ngwaith yr Arglwydd.

20 Mr. *Hughes*, a'i deulu'n gryno,
Mawr yw'ch colled chwi am dano,
Waith mor hyfryd a dyddanus
Oedd ei gwm'ni mwyn, cysurus,
Cyfaill gwych y'mhob gorthrymder,
Hawdd ei drin, a mwyn ei dymher;
Arglwydd mawr, danfon lawr,
Y fendith fawr hyry,
Ar ei dylwyth sy'n galaru,
Dan dy aden i dawelu.

21 Arglwydd Dduw, 'r hwn bia'r nefoedd,
Dae'r a môr, a'u holl amgylchoedd,
Gwrando heddyw gŵyn trueiniaid,
Sydd fel ŵyn y'nghanol bleiddiaid,
Bydd dy lun yn amddiffynwr,
Rho dy gael yn ymgeleddwr;
Seion wan, tŷn i'r lan,
Yn gyfan o'i gofid,
Dan dywysiad glân dy Ysbryd,
Nes d'od adre' i dir y bywyd.

22 Chwi wrthodwyr iachawdwriaeth,
'R wy'n eich gwahodd etto unwaith,
At Fâb Duw i faddeu'ch pechod,
Tra mae'n cynnyg grâs a chymmod;
Rhag bydd cwyn a gofid caled,
Etto'n glynu wrth bob enaid,
Poen a braw 'r ochr draw,
Fel cur-wlaw a chenllysg,
O ddigofaint Duw'n ddigymmysg,
Gwell i'ch heddyw dderbyn addysg.

*H. HARRIES a'i Cânt.*

DIWEDD.

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES